# Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2023

Fersiwn ar gyfer pobl ifanc



# Helo

**Mae byw mewn tlodi yn gwneud bywyd yn anoddach, yn enwedig i blant a phobl ifanc.**

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru fyw bywydau iach a hapus. Rydyn ni am iddyn nhw gael popeth maen nhw ei angen.

Ond mae llawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

**Tlodi** — heb ddigon o arian i dalu am fwyd, dillad, gwresogi ac anghenion sylfaenol eraill.

Yn 2015 fe wnaethom ni ysgrifennu Strategaeth Tlodi Plant i Gymru, ond mae llawer wedi newid ers hynny:

- Mae COVID-19 yn rhoi teuluoedd dan lawer o bwysau.
- yn rhoi teuluoedd dan lawer o bwysau. Nid yw cyflogau
- pobl wedi cynyddu digon i dalu'r costau hyn.
- Mae gan awdurdodau lleol lai o arian i redeg gwasanaethau, ond mae angen cymorth ar fwy o bobl.
- Mae gan Gymru lai o gyllid oherwydd Brexit.

**Mae'n rhaid i ni weithredu a chanfod atebion i leihau tlodi yng Nghymru.**

**Bydd y Strategaeth Tlodi Plant newydd hon yn ein helpu i frwydro yn erbyn tlodi a chreu Cymru gryfach a gwell i bawb.**



**Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth:**

**Cymru – cenedl sy'n helpu pob plentyn a pherson ifanc i gael eu hawliau, profi lles da a chyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.**

Mae gan yr holl blant a phobl ifanc hawliau sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

# Cynnwys pobl

I ysgrifennu'r Strategaeth Tlodi newydd hon rydym ni wedi cael help gan dros 3,272 o bobl:

- plant a phobl ifanc
- rhieni, gofalwyr a theuluoedd
- neiniau a theidiau a hen nain a thaid
- cynrychiolwyr o sefydliadau.

Fe wnaethom ni ymgynghori a dywedodd 155 o bobl wrthym ni beth roedden nhw'n ei feddwl.

Dywedodd pobl wrthym ni:

Mae tlodi yn effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd.

Dylai'r gefnogaeth fod yn y gymuned leol fel bod pobl yn cael help yn gyflym.

Gall y system fudd-daliadau fod yn anodd ei defnyddio.

Mae costau byw cynyddol yn cael effaith fawr.

Mae cost gwisg ysgol, tripiau a gweithgareddau yn broblem i deuluoedd.

Mae angen tai mwy fforddiadwy, o ansawdd da.

Mae gwybodaeth a chyngor gan wasanaethau yn bwysig ond gall fod yn anodd ei gael.

Mae angen i waith fod yn hyblyg a thalu'n dda.

Dylai gwasanaethau drin pawb ag urddas a pharch.

Mae angen i ofal plant fod yn fforddiadwy.

Mae angen i gludiant cyhoeddus fod yn fwy fforddiadwy.

**Mae gan y strategaeth hon gamau gweithredu a fydd yn helpu i leihau tlodi ac yn helpu pobl mewn tlodi.**



# Nod 1:

## Lleihau costau a sicrhau bod gan deuluoedd ddigon o arian ar gyfer bwyd, gwres a diwallu eu hanghenion.

Rydym ni am sicrhau bod pawb yn gwybod am fudd-daliadau, grantiau a chymorth y gallent eu cael.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod teuluoedd:

- yn gwybod sut i hawlio budd-daliadau fel nad ydynt yn colli allan ar arian
- yn cael cefnogaeth i lenwi ffurflenni ar-lein
- yn cael gwybodaeth a chyngor yn yr iaith maen nhw ei angen
- yn cael help gyda chostau bwyd, tai, tanwydd a thrafnidiaeth
- yn cael help gyda chostau dillad babanod, gwisg ysgol a chotiau gaeaf
- yn cael cynhyrchion mislif am ddim yn eu cymunedau
- yn gwybod sut i hawlio arian brys a chymorth os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd.

Rydyn ni hefyd eisiau i wasanaethau a sefydliadau ei gwneud yn haws i deuluoedd gael cefnogaeth.

Dim ond Llywodraeth y DU all newid rhai pethau. Mae hynny'n cynnwys y budd-daliadau mae pobl yn eu cael, trethi a'r arian rydyn ni'n ei gael i helpu pobl.

# Blaenoriaeth 1:

## Helpu pobl i gael yr arian mae ganddyn nhw hawl iddo – rhoi arian ym mhocedi pobl.

**Camau Gweithredu**

Byddwn ni yn:

- datblygu system Budd-daliadau Cymru sy'n hawdd ei defnyddio ac sy'n helpu pobl i gael unrhyw arian mae ganddyn nhw hawl iddo
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda theuluoedd yn rhoi'r cyngor, y wybodaeth a'r gefnogaeth maen nhw eu hangen i hawlio unrhyw fudd-daliadau mae ganddyn nhw hawl iddynt
- gweithio i ostwng y costau mae teuluoedd yn eu talu am addysg a bywyd ysgol — fel gwisgoedd ysgol, tripiau ysgol, prydau ysgol, trafnidiaeth a chostau eraill.





## Nod 2:

# Helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi.

Mae helpu teuluoedd allan o dlodi yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod teuluoedd:

- yn cael cymorth yn gyflym, ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn
- yn cael cymorth i mewn i waith
- yn cael cymorth i hawlio unrhyw fudd-daliadau mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw
- yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau
- yn cael cyfleoedd i gael swyddi sy'n talu'n dda
- yn cael cymorth gyda chostau gofal plant a chludiant.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- yn cael popeth maen nhw ei angen i dyfu a bod yn iach
- yn cael y cymorth maen nhw ei angen i ddysgu
- yn cael cymorth i gyrraedd eu nodau.

**Rydyn ni am i bawb gael cyfleoedd i fynd allan o dlodi.** Dydyn ni ddim am i unrhyw un golli allan oherwydd anabledd, ethnigrwydd, rhyw, rhywioldeb neu unrhyw reswm arall.

## Blaenoriaeth 2:

### Creu cenedl Gwaith Teg – gan adael neb ar ôl.

**Camau Gweithredu**
Byddwn ni yn:

- sicrhau bod popeth rydym ni'n ei wneud fel cyflogwr yn hyrwyddo Gwaith Teg ac yn cefnogi Cyflog Byw Go Iawn
- arwain y ffordd a sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd i ennill sgiliau a dod o hyd i waith
- dod o hyd i atebion i wneud gofal plant a thrafnidiaeth yn fwy fforddiadwy.

**Cyflog Byw Go Iawn** — y gyfradd fesul awr sydd ei hangen i fforddio eich anghenion sylfaenol ac nid mewn tlodi. Yn 2023, mae hyn yn £12 yr awr.





# Nod 3:

## Cefnogi lles teuluoedd, a sicrhau bod gan blant a phobl ifanc eu hawliau.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau, dim ots pwy ydyn nhw, lle maen nhw'n byw neu beth maen nhw'n credu ynddo. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

**Gall tlodi atal plant a phobl ifanc rhag mwynhau eu hawliau.**

Rydyn ni am i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru gael eu hawliau:

- i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- i fwynhau dysgu, a chael yr addysg orau bosibl
- i fwynhau bywyd iach, bod yn ddiogel rhag niwed a chael eu trin yn deg
- i gael chwarae a chael hwyl
- i gael eu clywed a chael eu trin â pharch
- i gartref a chymuned ddiogel ac iach i dyfu i fyny ynddo
- i gael yr hyn maen nhw ei angen i oroesi a datblygu.

Byddwn yn sicrhau bod y strategaeth hon yn cysylltu â chynlluniau eraill sydd gennym ni i amddiffyn hawliau plant.

# Blaenoriaeth 3:

## Adeiladu cymunedau – sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion pobl.

**Camau Gweithredu**

Byddwn ni yn:

- dod o hyd i ffyrdd y gall gwasanaethau yn y gymuned helpu pobl i gael cymorth yn gyflym a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- cefnogi mwy o ysgolion i ddod yn ysgolion bro fel y gallant gefnogi teuluoedd a gweithio gyda gwasanaethau yn y gymuned
- gweithio gydag eraill i ddarparu mwy o chwaraeon a gweithgareddau yn y gymuned sy'n gost isel ac sy'n cefnogi iechyd a lles
- sicrhau bod ein Polisi Cymunedau yn helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd i atal tlodi heb i bobl wynebu stigma.





# Nod 4:

## Sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Weithiau mae pobl yn cael eu trin yn annheg neu'n wynebu stigma oherwydd nad oes ganddyn nhw lawer o arian. **Dydyn ni ddim am i unrhyw un gael ei drin yn wahanol oherwydd tlodi.**

Rydyn ni eisiau sicrhau bod yr holl wasanaethau a staff:

- yn trin pobl yn deg a gyda pharch
- ddim yn gwneud bywyd yn anoddach i deuluoedd mewn tlodi.

Rydyn ni am sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a'u teuluoedd:

- yn cael cefnogaeth dda ni waeth pwy ydyn nhw, na faint o arian sydd ganddyn nhw
- yn cael cefnogaeth gan systemau sy'n hawdd dod o hyd iddyn nhw a'u defnyddio
- yn gallu dweud beth sy'n bwysig iddyn nhw
- yn cael cefnogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd eraill
- yn cael eu clywed ac yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

# Blaenoriaeth 4:

### Croesawgar – gwasanaethau caredig, agored a thosturiol i bawb.

**Camau Gweithredu**

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod popeth rydym ni'n ei wneud yn delio â thlodi ac yn cefnogi hawliau plant
- sicrhau bod gwasanaethau'n gwybod sut i helpu pobl yn y ffyrdd cywir a defnyddio'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma
- sicrhau bod ysgolion, colegau a phrifysgolion yn gwybod sut i gefnogi plant a phobl ifanc mewn tlodi
- sicrhau bod pawb yn cael cefnogaeth ac nad oes neb yn cael eu trin yn wahanol oherwydd anabledd, eu rhywioldeb, eu diwylliant, neu unrhyw reswm arall.





# Nod 5:

## Sicrhau bod popeth rydym ni'n ei wneud yn helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol ac yn lleol.

Rydym ni am sicrhau ein bod yn delio â thlodi ar draws Cymru gyfan. Dydyn ni ddim am adael unrhyw gymuned ar ôl.

Ni allwn ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain, mae'n rhaid i bob un ohonom ni weithio gyda'n gilydd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hynny'n cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus, elusennau, busnesau ac eraill. Byddwn ni'n meddwl am hawliau plant pan fyddwn ni'n gwneud hyn.

# Blaenoriaeth 5:

## Gweithio gyda'n gilydd – ledled Cymru ac yn lleol.

**Camau Gweithredu**
Byddwn ni yn:

- sicrhau bod ein cyllid a'n polisïau yn helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd i ddelio â thlodi
- helpu awdurdodau lleol a gwasanaethau i rannu eu harferion da a'u syniadau newydd fel y gallant wella eu gwaith a chanolbwyntio ar y pethau sydd ei angen fwyaf
- dod o hyd i'r ffyrdd gorau o ddelio â thlodi ar draws y rhanbarthau a chefnogi pawb i gydweithio
- sefydlu fforwm fel y gall gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau rannu arfer da a dysgu oddi wrth ei gilydd
- gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac eraill i gefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n wynebu tlodi.

i **Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn gyfrifol am wella iechyd a lles pawb sy'n byw yn eu hardaloedd.







# Monitro ein gwaith

Rydym ni'n penderfynu ar y ffyrdd gorau o fesur p'un a ydym ni'n cyrraedd ein nodau yn y strategaeth hon.

Byddwn ni hefyd yn parhau i siarad â phobl ledled Cymru i wneud yn siŵr ein bod ni'n cyrraedd ein nodau ac yn brwydro yn erbyn tlodi.

Hefyd, mae Gweinidogion Cymru yn adrodd bob tair blynedd ar ba mor dda mae Cymru'n gwneud a byddant yn gwirio p'un a yw'r Strategaeth hon yn gwneud gwahaniaeth.

# Diolch am ddarllen hwn

Gallwch ddarllen Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn llawn yma: llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-cymru-2023





